# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD MAWRTH, 18FED MEHEFIN, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**sionedmaijones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 10 Mehefin 2024)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Hughes | Linda Ann Jones |
| Olaf Cai Larsen | Edgar Wyn Owen |
| Llio Elenid Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Beca Roberts | Ioan Thomas |
| Sian Williams | John Pughe |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anwen J. Davies | Anne Lloyd-Jones |
| Eryl Jones-Williams | Dewi Owen |

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**5. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2024 fel rhai cywir.

**6. DRAFFT O ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH** 9 - 16

I ystyried yr adroddiad a'i gynnwys a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn unol a'r gofyn.

**7. HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD AELODAU** 17 - 20

I ystyried yr adroddiad, cynnig sylwadau, a derbyn yr hyn a gynigir.

**8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL** 21 - 24

I dderyn yr adroddiad gan y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith**.**

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH, 27/02/24

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr:**
Dewi Owen (Cadeirydd), Stephen Churchman, Anwen Hughes, Elwyn Jones, Anne Lloyd-Jones, Olaf Cai Larsen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Beca Roberts a Menna Trenholme (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

**Swyddogion:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Ian Jones (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol), Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams ac Arwyn Herald Roberts.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2023 fel rhai cywir.

## 5. CALENDR PWYLLGORAU 2024/25

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad ac argymell y Calendr Pwyllgorau 2024/25 i gyfarfod y Cyngor Llawn ar y 7fed o Fawrth, 2024 ar gyfer ei fabwysiadu.**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn gofyn am farn y Pwyllgor ar y Calendr Pwyllgorau 2024/25 cyn ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor wythnos nesaf. Adroddwyd bod ymgynghori wedi digwydd efo swyddogion mewnol y Cyngor ynghyd ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn osgoi gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. Yn ogystal nodwyd bod pob ymdrech wedi ei wneud i osgoi gwrthdaro gyda cyfarfodydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Amlygwyd bod dyddiad cyntaf y Cyngor wedi symud i'r 9fed o Fai, 2024 yn sgil Etholiad Comisiynydd yr Heddlu sydd yn cael ei gynnal ar yr 2il o Fai. Adroddwyd bod dyddiad wrth gefn ar gyfer Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor wedi ei nodi yn y calendr ar gyfer mis Medi 2024 er mwyn cynnal trafodaeth bosib ar y systemau Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Arsylwyd nad oedd cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn wedi eu nodi ar y Calendr ynghyd a dyddiadau hyfforddiant. Cwestiynwyd os oedd posib cynnwys dyddiadau hyfforddiant i Gynghorwyr ar y Calendr.
- Gofynnwyd a oedd modd ymgynghori efo'r Awdurdod Tân er mwyn osgoi gwrthdaro. Nodwyd bod 5 Cynghorydd yn aelodau o'r Awdurdod Tân a gwrthdaro wedi bod yn y gorffennol rhwng dyddiadau Pwyllgorau'r Cyngor a chyfarfodydd yr Awdurdod Tân.
- Mynegwyd anfodlonrwydd bod diffyg Cynghorwyr i fynychu Pwyllgor oherwydd eu bod yn gwasanaethu'r Cyngor ar Bwyllgor arall oedd yn cael ei gynnal yr un amser yn cael ei gofnodi fel 'Ymddiheuriad' neu 'Absennol'. Credwyd bod angen edrych fewn i'r drefn yma.
- Holwyd pam bod amser cyfarfod y Cyngor Llawn wedi newid i 1:30 o'r gloch ac os oedd modd ei newid yn ôl i 1:00. Credwyd y byddai hyn o fudd i Gynghorwyd sydd yn byw yn bell o Gaernarfon ac angen teithio adref ar ôl y cyfarfod, yn ogystal â'n gwella presenoldeb drwy'r cyfarfod cyfan.

Mewn ymateb i'r sylwadau:
- Nodwyd nad yw cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn yn cael eu cynnwys yn arferol ar y Calendr Pwyllgorau am mai dim ond dau Gynghorydd sydd yn eu mynych. Serch hyn sicrhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud gan y tîm Democratiaeth i osgoi gwrthdaro. Adroddwyd bod y tîm yn edrych fewn i ddyddiadau hyfforddiant ar hyn o bryd â'r posibilrwydd o'u cynnwys ar y Calendr, gellir edrych fewn i hyn flwyddyn nesaf.
- Sicrhawyd y bydd ymgynghori efo'r Awdurdod Tân yn digwydd wrth greu Calendr Pwyllgorau 2025/26 ac o hyn allan.
- Nodwyd y bydd y tîm Democratiaeth yn edrych fewn i'r ffordd mae Ymddiheuriadau ac Absenoldebau yn cael eu cofnodi yn sgil gwrthdrawiadau oherwydd swyddogaethau Cynghorwyr.
- Atgoffwyd bod amser cyfarfod y Cyngor Llawn wedi newid i 1:30 yn dilyn yr ymateb a dderbyniwyd i holiadur a anfonwyd at y Cynghorwyr yn 2022. Nodwyd mai un o'r prif resymau oedd i sicrhau bod amser digonol ar gael i gynnal y cyfarfodydd Grwpiau yn y bore. Ychwanegwyd bod y tîm Democratiaeth hefyd angen amser i baratoi cyfarpar y Siambr ar gyfer cyfarfod y Cyngor. Nodwyd nad oedd bwriad i ail ymgynghori'r tymor yma oni bai i amryw leisio'r un farn am amser cyfarfod y Cyngor. Ategwyd bod modd i Aelodau ymuno yn rhithiol er mwyn osgoi siwrnai hir.

**6. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR**

**PENDERFYNWYD:**
**Nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn adrodd ar ganlyniadau'r holiadur a anfonwyd at yr holl Aelodau ym mis Ionawr, 2024 yn gofyn am eu barn ar y gwasanaeth sydd ar gael gan y tîm Democratiaeth.

Nodwyd bod 31 Cynghorydd wedi cwblhau'r holiadur. Adroddwyd bod 91% wedi nodi bod safon y gwasanaeth yn Dda neu yn Dda iawn gydag un Aelod wedi nodi Boddhaol a dau heb ymateb. Nodwyd bod yr Aelod oedd wedi nodi Boddhaol wedi rhoi sylwadau am Adran arall o'r Cyngor felly bydd yr Arweinydd tîm yn cysylltu â'r Aelod dan sylw er mwyn derbyn barn ar y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan y tîm Democratiaeth.

Adroddwyd bod un Aelod wedi nodi anfodlonrwydd efo'r camau i fynd yn ddi-bapur. Nodwyd bod y tîm Democratiaeth yn cyd-weithio gyda'r Aelodau i geisio cynorthwyo'r newid hwn. Tynnwyd sylw at sylwadau eraill cafodd eu gwneud megis yr heriau sydd ynghlwm â rôl Cynghorydd a'r pwysigrwydd i drin Aelodau â pharch. Ategwyd pwysigrwydd i bob Aelod

gwblhau'r holiadur er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth sydd ar gael i Gynghorwyr yn ddigonol ac yn ateb y gofynion ac anogwyd yr holl Aelodau i gwblhau'r holiadur yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:
- Mynegwyd barn bod rôl Cynghorydd yn fwy heriol yn bresennol nag yr oedd yn arfer bod oherwydd yr hinsawdd wleidyddol a'r heriau sydd ynghlwm a hynny megis costau byw a diffyg Tai.
- Gwnaethpwyd sylw am gymal 7 o'r adroddiad gan nodi bod gwybodaeth anghyflawn ar safle we'r Cyngor am benodiadau Cynghorwyr i Gyrff Allanol. Credwyd bod angen diweddaru'r wybodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol.
- Gofynnwyd a yw'r tîm Democratiaeth yn holi Aelodau am awgrymiadau ar sut i wella'r gwasanaeth sydd ar gael iddynt.
- Holiwyd os yw gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael o ran gofal plant i Gynghorwyr yn cael ei rannu efo Cynghorwyr benywaidd. Pwysleisiwyd ei bod yn angenrheidiol denu merched i ymgymryd â rôl Cynghorydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau:
- Cydnabuwyd bod angen diweddaru'r wybodaeth am Gyrff Allanol yn gyson gan adrodd bod trefniadau ar y gweill er mwyn ymgymryd â'r gwaith dros y misoedd nesaf.
- Nodwyd bod yr holiadur yn cynnwys cwestiwn ar sut all y tîm Democratiaeth ddatblygu'r gwasanaeth sydd ar gael i Aelodau yn ogystal â chwestiwn am unrhyw sylwadau pellach. Credwyd bod yr holiadur yn rhoi cyfleoedd digonol i Aelodau nodi eu barn a'u hawgrymiadau.
- Cadarnhawyd bod y wybodaeth am y cymorth sydd ar gael o ran gofal plant eisoes wedi ei rannu efo Cynghorwyr yn ystod y Dyddiau Croeso fel rhan o'r drefn anwytho a hefyd ar gael ar y Mewnrwyd Aelodau. Nodwyd efallai bod modd cylchredeg y wybodaeth drwy ei gynnwys yn y Bwletin Aelodau er mwyn ei amlygu ymhellach dros yr wythnosau nesaf.

## 7. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

**PENDERFYNWYD:**
**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd.**

Cyflwynwyd yr adroddiad ar y ddarpariaeth Dysgu a Datblygu a'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i Aelodau. Nodwyd bod yr adroddiad ychydig yn wahanol y tro hwn er mwyn amlygu'r heriau sydd ynghlwm â chyflwyno'r rhaglen.

Soniwyd am y broses ymgynghori gyda Phenaethiaid a Swyddogion sydd eisoes ar waith ar gyfer creu rhaglen hyfforddiant 2024/25. Nodwyd bod hynny o'r rhaglen 2024/25 sydd wedi ei phoblogi yn barod i'w gweld yn yr adroddiad. Adroddwyd bod y gwasanaeth yn derbyn nifer o geisiadau am hyfforddiant newydd ac yn ceisio eu blaenoriaethu. Adlewyrchwyd ar sylwadau blaenorol gan rai Aelodau bod y rhaglen wedi datblygu i fod yn rhaglen drom o ran ei gynnwys.

Amlygwyd bod teitlau allweddol sydd wedi eu hadnabod fel meysydd craidd wedi eu rhestru yn yr adroddiad. Pwysleisiwyd ei bod yn hanfodol i Aelodau gwblhau'r rhain gan nodi bod amryw heb gwblhau'r teitlau. Tynnwyd sylw at y ffigyrau yn y tabl yn rhan 2.4 o'r adroddiad.

Ychwanegwyd bod rhai o'r teitlau craidd yn rhedeg ers peth amser a bod y niferoedd sy'n mynychu'r sesiynau yn broblemus. Nodwyd bod cynnal hyfforddiant sy'n hanner llawn o ran presenoldeb ddim yn rhoi'r gwerth gorau am arian ac yn arwain at orfod ail gynnal yr un hyfforddiant amryw o weithiau. Nodwyd bod hyn yn arafu gallu swyddogion i symud ymlaen â'r rhaglen hyfforddiant ehangach gan y bydd angen ail ymweld â'r teitlau craidd yn y flwyddyn

2024/25. Amlygwyd y consyrn nad yw'r Aelodau sydd heb fynychu'r hyfforddiant craidd efo'r cefndir na'r wybodaeth angenrheidiol i'w rôl.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:
- Canmolwyd ansawdd uchel yr hyfforddiant gan nodi eu bod yn ddefnyddiol, a diolchwyd am waith y gwasanaeth Dysgu a Datblygu.
- Mynegwyd pryder a siomedigaeth bod nifer o Aelodau heb fynychu'r hyfforddiant craidd a gofynnwyd pa gamau sydd ar y gweill er mwyn sicrhau bod pawb yn mynychu'r teitlau mandadol.
- Holiwyd ynghylch blaengynllun ac os oes modd ei gylchredeg. Credwyd y byddai derbyn blaengynllun o'r dyddiadau o fudd i Aelodau allu cynllunio a gadael amser rhydd ar gyfer y teitlau amrywiol.
- Cydnabuwyd ei bod yn anodd mynychu hyfforddiant oherwydd prinder amser Aelodau gyda rhai efo calendrau llawn, yn ogystal ag amryw efo cyfrifoldebau eraill megis gyrfa neu blant. Diolchwyd am y camau sydd eisoes wedi eu cymryd i geisio gwella nifer mynychwyr.
- Holiwyd am y posibilrwydd o wylio sesiynau sydd wedi eu recordio ac os oes modd i Aelodau wneud hynny yn amser eu hunain. Gofynnwyd a fydd hyn yn cyfri fel eu bod wedi mynychu'r sesiwn.
- Awgrymwyd cysylltu ag Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol er mwyn iddynt dynnu sylw at y mater yn ffurfiol o fewn y Grwpiau gan amlygu'r hyfforddiant fwyaf hanfodol. Ategwyd bod cyfrifoldeb bellach ar yr Arweinyddion Grŵp i sicrhau bod Aelodau yn mynychu hyfforddiant.
- Cwestiynwyd yr angen i Aelodau ail wneud hyfforddiant os eisoes wedi ei gwblhau e.e. yn y Cyngor diwethaf (2017-22) neu drwy sefydliad arall.
- Amlygwyd bod nifer o sesiynau yn cael eu canslo oherwydd diffyg niferoedd neu salwch gyda rhai heb gael eu hail drefnu. Cyfeiriwyd yn benodol at sesiwn efo Cymorth i Ferched Cymru gafodd ei ganslo ar y 9fed o Chwefror.

Mewn ymateb i'r sylwadau:
- Adroddwyd bod y gwasanaeth wedi bod yn canolbwyntio ar atgoffa Aelodau am yr angen i fynychu teitlau craidd ac ail gynnig sesiynau yn ogystal â chynnig sesiynau ar amseroedd gwahanol e.e. gyda'r nos. Yn ychwanegol nodwyd bod y Swyddog Datblygu Aelodau yn targedu unigolion sydd ddim yn mynychu ac yn eu hatgoffa. Croesawyd awgrymiadau pellach gan yr Aelodau.
- Nodwyd bod gwybodaeth helaeth am y teitlau ar y Mewnrwyd Aelodau a bod llawer o wybodaeth yn cael ei rannu yn y Bwletin Aelodau yn wythnosol yn ogystal â dolen i'r Mewnrwyd. Amlygwyd bod copi o'r blaengynllun i'w weld ar y Mewnrwyd Aelodau. Ychwanegwyd bod ymdrechion wedi bod i osgoi gwrthdaro rhwng dyddiadau hyfforddiant a Phwyllgorau'r Cyngor.
- Nodwyd bod recordiad rhai o'r hyfforddiant yn cael eu gosod ar y Mewnrwyd Aelodau. Gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu efo'r Swyddog Datblygu Aelodau er mwyn cadarnhau ar ôl gwylio recordiad, fel arall ni fydd y gwasanaeth yn ymwybodol o hyn.
- Cytunwyd i'r gwasanaeth gysylltu efo'r Arweinyddion Grŵp Gwleidyddol cyn gynted ag y bo modd er mwyn iddynt annog Aelodau i fynychu teitlau craidd.
- Nodwyd bod diweddariadau yn aml efo teitlau fel y Cod Ymddygiad ac Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol felly anogwyd yr Aelodau i ail fynychu os yn amserol.
- Cadarnhawyd y bydd sesiwn pellach efo Cymorth i Ferched Cymru yn cael ei ail drefnu at fis Ebrill, bydd dyddiad newydd yn cael ei gynnig cyn gynted ag y bo modd.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 13:55.

**CADEIRYDD**

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Mehefin 2024** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Drafft o adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

### 1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried yr adroddiad a'i gynnwys a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn unol a'r gofyn.

### 2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

2.1 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn flynyddol yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.

2.2 Yn unol a gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl,
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

2.3 Mae adroddiad blynyddol eleni yn un cryno ac yn canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau. Yn ogystal mae'n amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2.4 Dymunaf ddiolch i chi aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eich sylwadau adeiladol yn ystod ein cyfarfodydd dros y flwyddyn. Mae nifer o dimau yn fy nghynorthwyo i ddarparu'r gefnogaeth orau bosib i chi, a dymunaf ddiolch i bawb am eu gwaith, ond rwyf am ddiolch yn benodol i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, sef eich prif gyswllt dydd i ddydd, i Catrin Love a'r tîm dysgu a datblygu, a'r holl swyddogion eraill sy'n cynorthwyo i'ch cefnogi yn eich rôl. Edrychaf ymlaen at gyd-weithio gyda chi gyd i'r dyfodol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

# Adroddiad blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth 2023/24



RHAGAIR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol cryno yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr Gwynedd. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd yn ychwanegol yn ystod y flwyddyn er mwyn eich cefnogi.

Rwy'n awyddus i barhau i'ch cefnogi yn y modd mwyaf effeithiol a fyddai hynny ddim yn bosib heb eich cefnogaeth chi fel Cynghorwyr a chefnogaeth y gwahanol swyddogion sy'n gweithio yn y cefndir.

Edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda chi dros y blynyddoedd i ddod. Diolch.

Cofion,

Ian



***Ian Jones,***

***Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth***

# ADRODD NOL AR FLAENORIAETHAU 2023/24

## 2023/24 – parhau a'r gefnogaeth

Bu 2023/24 yn flwyddyn o barhau a'r gwaith o adeiladu ar y seiliau cadarn o'r gefnogaeth sydd mewn lle ar eich cyfer. Roeddwn wedi amlinellu pedair prif flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn. Mae'r isod yn dangos y cynnydd yn erbyn y pedwar maes.

## DIOGELWCH A CHEFNOGAETH I GYNGHORWYR

**Beth wnaethom ei addo?**

*Parhau i roi ffocws ar faterion diogelwch i Gynghorwyr yn ogystal a chefnogaeth lles a iechyd meddwl i Gynghorwyr.*



**Beth wnaethom ei gyflawni?**

- Mae ffocws parhaus yn cael ei roi ar ddiogelwch i Gynghorwyr, gydag asesiad risg yn cael ei gynnal cyn pob cyfarfod aml-leoliad.
- Mae hyfforddiant penodol ar ddiogelwch i Gynghorwyr yn cael ei gynnal, a materion diogelwch yn cael eu codi fel rhan o hyfforddiant i Gadeiryddion.
- Mae bwletin penodol i aelodau wedi bod yn rhoi sylw cyson i gefnogaeth a lles Cynghorwyr, gyda thudalennau penodol ar y mewnrwyd aelodau hefyd.
- Cynhelir sgyrsiau anffurfiol gyda merched sy'n Gynghorwyr er mwyn iddynt gynnig cefnogaeth i'w gilydd yn y rôl unigryw.

## HYFFORDDIANT I GYNGHORWYR—SGYRSIAU DATBLYGIAD PERSONOL

**Beth wnaethom ei addo?**

*Byddwn yn cynnig sesiynau 1-1 i Gynghorwyr i drafod cefnogaeth o ran datblygiad yn eich rôl a pharatoi at rolau posib yn y dyfodol ee rôl Cadeirydd.*

**Beth wnaethom ei gyflawni?**

- Bu rhywfaint o newid trywydd gan flaenoriaethu'r angen i roi sylw i hyfforddiant craidd fel man cychwyn.
- Rydym wedi cychwyn gyda ail edrych ar ddefnyddio adnoddau yn y modd mwyaf priodol gan dargedu hyfforddiant craidd yn y lle cyntaf:
- Er hynny, rydym yn cynnal rhaglen lawn o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant datblygol.
- Rydym yn darparu hyfforddiant mewnol ac allanol o safon uchel
- Yr her yn awr yw sicrhau defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf priodol



## EDRYCH AR EIN TREFNIADAU CRAFFU YN DILYN GWAITH ARCHWILIO CYMRU

**Beth wnaethom ei addo?**

*Byddwn yn edrych ar ein trefniadau craffu yn sgil allbwn gwaith Archwilio Cymru i'n trefniadau cyfredol, gan edrych a oes angen mwy o hyfforddiant neu addasu ein pwyllgorau mewn unrhyw fodd.*



Pwrpas Craffu yng Ngwynedd yw:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i Aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet


**Beth wnaethom ei gyflawni?**

- Adolygiad wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn
- Cadarnhau parhau gyda'r trefniadau cyfredol o ran 3 pwyllgor
- Hyfforddiant wedi ei gynnig i'r holl Gynghorwyr er mwyn pwysleisio pwysigrwydd cwestiynu yn strategol a chraff a'r angen am argymhellion clir er mwyn gallu eu tracio a phrofi effaith craffu
- Addasiadau i'n trefniadau mewnol er mwyn miniogi ein trefniadau craffu ee ffocws penodol ar gwestiynu craff yn y sesiynau briffio, paratoi cwestiynau o flaen llaw yn y sesiynau anffurfiol, a hunan arfarnu perfformiad y pwyllgorau

## CYNGOR DI-BAPUR

**Beth wnaethom ei addo?**

*Symud at fod yn Gyngor di bapur er mwyn lleihau ein ôl troed carbon a gwireddu'r arbedion perthnasol i'r Cyngor*



**Beth wnaethom ei gyflawni?**

- Wedi gweithredu i gyflawni'r buddion amrywiol – budd amgylcheddol, rhannu gwybodaeth yn sydyn, cyflawni arbedion.
- Roedd 29 o Gynghorwyr yn derbyn copïau papur (ar gyfer rhwng 1 a 10 pwyllgor yr un)
- Wedi darparu sgrin ychwanegol i Gynghorwyr i gynorthwyo yn eu gwaith, a chynnig hyfforddiant 1:1 ar osod a defnyddio'r cyfarpar
- Mae rhai unigolion yn parhau i dderbyn copïau papur yn ôl yr angen
- Wedi arbed arian i'r Cyngor ar gostau argraffu a phostio, yn ogystal a lleihau ôl troed carbon, osgoi unrhyw broblemau yn sgil y post, a gallu cyfathrebu ar ein union ayyb

Diolch i bawb am eu cyd-weithrediad

# 2023/24— LLWYDDIANNAU ERAILL

91% o Gynghorwyr Gwynedd wedi adrodd bod gwasanaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda/ dda iawn

98% o daflenni penderfyniad o bwyllgorau'r Cyngor wedi eu cyhoeddi o fewn 5 diwrnod gwaith.

Gynnal y rhaglen bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn, dros 150 o gyfarfodydd i gyd, yn gyfarfodydd rhithiol ac aml-leoliad gan ddatblygu ein trefniadau gwe ddarlledu

Gweinyddu cyflogau a chostau Cynghorwyr a chyhoeddi'r wybodaeth yn unol a'r gofynion statudol

Cynorthwyo Cynghorwyr unigol gyda sefyllfaoedd amrywiol.

Adolygu trefniadau a hawliau mamolaeth Cynghorwyr yn un enghraifft

Croesawu Cynghorydd newydd yn ystod y flwyddyn, gan adolygu ein trefniadau croesawu ac anwytho

Cymryd camau ychwanegol i oresgyn problemau cyswllt ac i wella'r sain yn y siambrau ar gyfer cyfarfodydd hybrid

Gweinyddu cyflogau a chostau Cynghorwyr yn unol â gofynion y Panel Annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol

Gweinyddu pwyllgorau rhanbarthol a chefnogi sefydlu Cydbwyllgor Corfforedig y gogledd a'i is-bwyllgorau

Cynnal rhaglen lawn o hyfforddiant gyda recordiadau o nifer o'r digwyddiadau ar y Mewnrwyd

Parhau i ddatblygu'r mewnrwyd aelodau a chyhoeddi bwletin Aelodau yn wythnosol er mwyn cyfathrebu'n amserol

Cynnig cymorth ac arweiniad o ran defnyddio technoleg mewn cyfarfodydd

Cefnogi Cadeiryddion ac is-gadeiryddion amrywiol bwyllgorau trwy ddarparu nodyn briffio, addroddiadau, cyngor ac arweiniad iddynt mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Cynnal hyfforddiant penodol i Gadeiryddion a darpar Gadeiryddion, gan gynnwys gogwydd o'r defnydd o dechnoleg.

# BLAENORIAETHAU 2024/25

***Yn ystod 2024/25 byddwn yn parhau a'r arlwy arferol o gefnogaeth i Gynghorwyr. Yn ogystal byddwn yn:***

- ***Parhau i adeiladu ar ein trefniadau Diogelwch a chefnogaeth i Gynghorwyr o fewn ein gallu.***
- ***Rhesymoli'r rhaglen hyfforddiant a rhaglen briffio ar gyfer Cynghorwyr er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser Cynghorwyr ac adnoddau'r Cyngor.***
- ***Bwrw ymlaen gyda newidadau i drefniadau Craffu er mwyn sicrhau fod Craffu yn gwneud gwahaniaeth.***
- ***Gweithio gyda Cadeirydd y pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr—gan gychwyn gyda 'newyddlen y Cadeirydd' fel rhan o'r bwletin Aelodau yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.***

Cofiwch gysylltu gyda mi neu unrhyw un o'r tîm yn uniongyrchol i drafod unrhyw bryderon.

Rwy'n edrych ymlaen at gyd-weithio gyda chi dros y flwyddyn i ddod.

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Mehefin 2024** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Catrin Love, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol** |

### 1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried yr adroddiad, cynnig sylwadau, a derbyn yr hyn a gynigir.

### 2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

2.1 Yn y Pwyllgor diwethaf, fe amlygwyd wrthoch ei bod yn bwysicach nac erioed i fod yn rhesymoli y cynnig a'r ddarpariaeth hyfforddi i Aelodau Etholedig.

2.2 Nodwyd y byddai ffurf y rhaglen ddysgu i Aelodau wrth symud ymlaen yn rhannu i dair elfen sef:

- Hyfforddiant craidd
- Hyfforddiant arall
- Cyfweliadau datblygiad personol

2.3 Byddwch yn cofio i ni roi ffocws yn benodol yn y cyfarfod diwethaf ar yr elfen hyfforddiant craidd, sef y teitlau mwyaf elfennol y mae pob Aelod angen bod wedi derbyn hyfforddiant arnynt i allu cwblhau eu rôl yn effeithiol.

2.4 Tros y misoedd diwethaf, mae dilyniant wedi bod ar y mater yma trwy fod yn cysylltu a'r Arweinyddion Pleidiau i amlygu'r sefyllfa, gyda cais eu bod yn dilyn i fyny gyda'r Aelodau unigol ple fo bylchau o ran y 7 maes Craidd.

2.5 Mae'n amlwg fod dilyniant wedi bod gan yr Arweinyddion gan fod ambell Aelod wedi cysylltu yn holi pa deitlau maent angen eu cwblhau i lenwi'r bylchau. Nid yw hynny hyd yma fodd bynnag wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y ffigyrau cwblhau hyfforddiant craidd ers i ni fod yn adrodd ddiwethaf.

2.6 Ein bwriad pellach yw trefnu sgwrs gyda'r Arweinyddion tros yr wythnosau nesaf i fod yn trafod a gallu egluro yn llawnach beth yw'r sefyllfa, a beth yw'r risgiau ynghlwm â hynny.

2.7 Er fod yna nifer o Aelodau sy'n parhau i fod angen mynychu'r hyfforddiant craidd, mae'n amlwg yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, a ninnau mewn i'r drydedd flwyddyn etholiadol, y bydd yn rhaid newid y ddarpariaeth wrth symud ymlaen. Mae rhai cyrsiau yn rhedeg yn hanner gwag, sydd yn ofyn sylweddol ar amser swyddogion. Un enghraifft i'w gyfleu i chi yw cwrs Arwain yn Ddiogel sy'n deitl craidd a gynhaliwyd ar y 21/5/24 sydd yn un o'r 7 teitl Craidd. Roedd 11 enw wedi cofrestru ar ei gyfer. Cwrs oedd yn clymu amser y Rheolwr Iechyd a Diogelwch am hanner diwrnod, ynghyd â chyfieithydd - dim ond 4 aelod a fynychodd y cwrs ar y diwrnod.

2.8 Y bwriad felly yw y bydd recordiadau o'r teitlau craidd ar gael ar y fewnrwyd aelodau ond y byddwn yn symud y ffocws i bynciau eraill erbyn hyn gyda cais iddynt fod yn ein hysbysu fel byddant yn cwblhau'r cyrsiau ar y Fewnrwyd.

2.9 Bydd angen penderfyniad ac eglurder wrth symud ymlaen ar y gofyn o ran hyfforddiant ail-atgoffa ar y teitlau craidd a gwahoddir unrhyw sylwadau ar y mater yma. Mae cynnwys cyrsiau yn newid I'w cadw'n gyfredol, ac mae sawl Aelod yn penderfynu o'u gwirfodd ar ôl ychydig flynyddoedd i ail wneud rhai teitlau er mwyn atgoffa eu hunain, ond hyd yma nid oes arweiniad pendant ar amlder y gofyn hwn.

2.10 Mae nifer o gyrsiau wedi eu cynnal tros y cyfnod diwethaf, gyda rhai o'r pigion i'w hamlygu yn cynnwys Arfer Gorau Pwyllgor Craffu (Hyfforddiant i Graffwyr). Profodd hwn yn gwrs llwyddiannus iawn, a chafwyd adborth tu hwnt o bositif, Sgiliau Cadeirio, Cymorth trwy'r Argyfwng Costau Byw, a sawl sesiwn ar Drais yn erbyn Menywod.

2.11 Mae rhaglen faith o gymorth i Gynghorau ar Ddatblygiad Aelodau gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'n deg nodi nad yw'r ddarpariaeth hwn wastad ar gael trwy'r Gymraeg, ac rydym yn ceisio dylanwadu ar hynny yn unol â pholisi iaith y Cyngor, ac mae'r hyfforddiant ar Arfer Gorau Pwyllgor Craffu yn enghraifft ple rhoddwyd trefniadau mewn lle i allu darparu y cynnig Cenedlaethol mewn ffordd amgen er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ei gynnig yn y Gymraeg.

2.12 Bydd gweithgaredd y misoedd nesaf fel arall yn canolbwyntio ar Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n gosod disgwyliadau clir wrth symud ymlaen o ran Dysgu a Datblygu Aelodau.

2.13 Cam cyntaf y gwaith hwnnw fydd cynnal arolwg o ddadansoddiad anghenion Aelodau tros yr Haf ple bydd holiadur yn cael ei anfon i bob Aelod yn gwahodd eu mewnbwn a'u barn nhw am gynnwys y rhaglen hyfforddiant tros y flwyddyn i ddod.

2.14 Mae barn eisoes wedi'i gasglu ynglŷn â sgiliau Iaith ac mewn ymateb i hynny, bydd cwrs Gloywi Iaith yn cychwyn ym Mis Medi ac wedi profi yn boblogaidd.

2.15 Gan barhau ar y trywydd o gasglu barn, cynhaliwyd sesiwn anffurfiol yn ddiweddar ar gyfer merched sy'n Gynghorwyr, i roi'r gofod iddynt drafod a chefnogi ei gilydd yn eu rôl a chymharu unrhyw rwystrau. Bu i wyth o Gynghorwr fynychu'r sesiwn a gynhaliwyd ddiwedd mis Mai. Mae'r prif sylwadau wedi eu crynhoi yn y pwyntiau bwled canlynol:

2.16 Nodwyd rhwystredigaeth gan y Cynghorwyr fod rhai swyddogion penodol ddim yn ateb e-byst / ymholiadau. Nododd y Cynghorwyr eu bod yn aml yn holi ar ran eraill a'u bod hwy yn atebol i'w etholwyr ac yn gorfod adrodd eu bod yn "parhau i ddisgwyl am ateb". Ar y llaw arall, nodwyd fod Galw Gwynedd yn gaffaeliad arbennig o dda ac yn eu cynorthwyo yn eu gwaith fel Cynghorwyr.

2.17 Mae'r Prif Weithredwr wedi rhoi cryn sylw i hyn, a dylai Cynghorwyr gyfeirio enghreifftiau penodol ato neu drwy'r gwasanaethau democratiaeth

2.18 Ar yr un trywydd, nodwyd bod lefel y cwynion ac ymholiadau maent yn eu derbyn i weld yn mynd llawer iawn uwch, gyda phobl yn llai amyneddgar ac yn disgwyl datrysiad ar unwaith. Nodwyd hefyd fod pwysau ar y Cynghorwyr yn sgil rhai sefyllfaoedd, a'u bod yn ceisio gwneud eu gorau ym mhob sefyllfa. Y prif feysydd ymholiadau cyfredol yw tai, priffyrdd ac arwyddion ffordd.

2.19 Mae bwriad edrych ymhellach ar faes Tai fel rhan o raglen y Pwyllgor Craffu Gofal yn ystod 2024/25.

2.20 Yn sgil yr uchod, nodwyd fod galwadau ar amser a cheisio balansio gwaith fel Cynghorydd, (yn y Cyngor, yn y ward), gwaith cyflogedig a bywyd teuluol yn her anferthol, ac mai bywyd teuluol sydd i'w weld yn dioddef fwyaf. Mae lle i ddathlu'r llwyddiannau sydd i'w gweld gan Gyngor Gwynedd gan fod mwy o ferched rŵan yn Gynghorwyr ac mewn rolau arweiniol.

2.21 Yn sgil yr uchod a'r her i geisio denu mwy o ferched, pobl ifanc a merched sy'n magu teuluoedd i fod yn Gynghorwyr, nodwyd bod lle i godi ymwybyddiaeth Cynghorwyr a darpar Gynghorwyr o'r hawl i absenoldeb mamolaeth ac ad-hawlio costau gofalu.

2.22 Mater arall a drafodwyd oedd cefnogaeth a chymorth i Gynghorwyr – nodwyd fod nifer yn derbyn cymorth gan eu cyd-aelodau, yn arbennig eu 'cymdogion' o ran wardiau. Nodwyd hefyd ei bod yn rôl unig a fod nifer yn colli dod i adnabod eu cyd-aelodau wrth fynychu pwyllgorau fel oedd yn digwydd cyn y newid i'r ddeddf. Rhoddwyd canmoliaeth i'r cymorth sydd ar gael gan y tîm

democratiaeth ac i sesiynau hyfforddiant, ond fod pryder ynghylch y niferoedd sy’n mynychu.

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

**Dyddiad y Cyfarfod:** **18 Mehefin 2024**

**Teitl yr Eitem:** **Gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol.**

**Swyddog Cyswllt:** **Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith.**

### 1. PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

### 2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?

2.1 Ym mis Tachwedd 2023 cyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor ynghylch bwriad Panel Annibynnol Ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Cymru) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y Panel oedd yn cadarnhau'r newidiadau ar gyfer 2024/25 ar yr 28ain o Chwefror, 2024. Bwriad yr adroddiad yw cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf er gwybodaeth i Gynghorwyr.

**Rôl y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Cymru)**

2.2 Cyfrifoldeb y Panel yw gosod lefelau cyflogau Cynghorwyr Cymru, ac mae eu rôl yn hollol annibynnol. Ers ei sefydlu, mae'r Panel wedi mynegi'n gyson ac yn gadarn nad yw democratiaeth leol a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yn ddi-gost a bod angen rhoi gwerth iddynt os ydym am alluogi i bawb gymryd rhan. Mae'n bwysig hyrwyddo diwylliant sy'n annog unigolion i dderbyn cydnabyddiaeth tâl i sicrhau y gall pobl o bob rhan o gymdeithas gymryd rhan yn hyderus yn ein democratiaeth.

2.3 Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ystyried goblygiadau ariannol ei benderfyniadau. Mae'r Panel wedi gofod ceisio cydbwyso y ddwy elfen ochor yn ochor yn flynyddol wrth wneud ei benderfyniadau.

**Cyflogau ar gyfer Aelodau etholedig.**

2.4 Mae'r tabl isod yn dangos manylion taliadau Grwp B ar gyfer 2024-25.

| | Tâl cydnabyddiaeth ar gyfer 2024/25 | Tâl Cydnabyddiaeth ar gyfer 2023/24 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig) | £18,666 | £17,600 |
| Band 1: arweinydd | £62,998 | £59,400 |
| Band 1: dirprwy arweinydd | £44,099 | £41,580 |
| Band 2: aelodau gweithredol | £37,799 | £35,640 |
| Band 3: cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth) | £27,999 | £26,400 |
| Band 4: arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £27,999 | £26,400 |
| Band 5: arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill | £22,406 | £21,340 |

2.5 Mae'r lefel wedi ei osod ar gyfer Pennaeth Dinesig yn £27,999 a £22,406 ar gyfer Dirprwy Bennaeth Dinesig.

2.6 Noder fod cyfrifoldeb i'r Awdurdod dalu'r gyfradd a osodir, fodd bynnag os oes Aelod Etholedig yn dymuno peidio derbyn y lwfans neu gyfran ohono, yna mae'n rhaid iddynt ysgrifennu'n unigol at y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**Cyfathrebu**

2.7 Yn sgil derbyn nifer o ymholiadau gan Gynghorwyr ynghylch lefel cyflog penderfynwyd adrodd ar y wybodaeth uchod i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gan ofyn i'r aelodau rannu'r wybodaeth gyda'u cyd-aelodau. Mae gwybodaeth eisoes wedi ei rannu ar y mewnrwyd aelodau a thrwy'r Bwletin Aelodau, ac anogir pawb i wneud defnydd o'r adnodd pwysig hwn.

2.8 Gweler enghraifft o'r hyn sydd wedi ei rannu ar y mewnrwyd yn Atodiad A a B.

# Cyflogau Aelodau Etholedig
# Salaries for Elected Members

2024/25

CYNGOR GWYNEDD

Cyfrifodeb Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru yw gosod lefelau Cyflogau Cynghorwyr Cymru.

*It is the responsibility of the Independent Remuneration Panel for Wales to set the salary levels of Wales' Councillors.*

Bydd y cyflogau isod yn daladwy o'r 1af o Ebrill, 2024.
*The salaries shown below will be payable from 1st April 2024.*

| | |
|---|---|
| **Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig)**<br>***Basic salary (payable to every elected member)*** | £18,666 |
| **Band 1: arweinydd \| *leader*** | £62,998 |
| **Band 1: dirprwy arweinydd \| *deuputy leader*** | £44,099 |
| **Band 2: aelodau gweithredol \| *executive members*** | £37,799 |
| **Band 3:**<br>**cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth)**<br>***committee chairs (if they recieve a recognition payment)*** | £27,999 |
| **Band 4:**<br>**arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf**<br>***the leader of the largest opposition party*** | £27,999 |
| **Pennaeth Dinesig**<br>***Civic Head*** | £27,999 |
| **Dirprwy Bennaeth Dinesig**<br>***Deputy Civid Head*** | £22,406 |

Os oes Aelod Etholedig yn dymuno peidio derbyn y lwfans neu gyfran ohono, yna mae'n rhaid iddynt ysgrifennu yn unigol at Bennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ar y cyfeiriad e-bost canlynol-

*Should an Elected Member decide that they do not wish to recieve their salary or a proportion of their salary, they will need to write individually to the Head of Democratic Services at the following email -*

**IanJones@gwynedd.llyw.cymru**

# Cynghorwyr Gwynedd - Gwybodaeth ar gyfer 2024/25

- **Mae cyflog sylfaenol Cynghorwyr yn <u>£18,666</u> o 1af Ebrill, 2024.**
- **Mae'r raddfa yn cael ei osod gan Banel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru.**

**Os nad ydych yn dymuno derbyn y cyflog yna cysylltwch gyda Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth: ianjones@gwynedd.llyw.cymru**





## Ydych chi'n gofalu am ddibynnydd?

**Cofiwch hawlio ad-daliad costau gofal os ydych yn talu am ofal i blentyn neu oedolyn er mwyn i chi ddod i gyfarfodydd**

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Democratiaeth: gwasanaethdemocratiaeth@gwynedd.llyw.cymru**